

Mae NICE wedi asesu profion alergen amlbleth (ImmunoCAP ISAC 112 a Microtest), mewn pobl sydd ag alergedd y mae'n anodd gwneud diagnosis yn ei gylch, er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio. Defnyddir y profion gyda phrofion alergedd presennol a gwybodaeth am hanes person o adweithiau alergeddol.

Mae NICE wedi dweud bod ImmunoCAP ISAC 112 yn ymddangos yn addawol ond bod angen mwy o waith ymchwil cyn y gellir defnyddio'r prawf hwn yn y GIG.

Nid argymhellodd NICE y Microtest oherwydd bod angen mwy o dystiolaeth.

Mae profion alergen amlbleth yn defnyddio un sampl gwaed i brofi am wrthgyrff i lawer o sylweddau ar yr un pryd. Gall helpu pobl sydd ag alergeddau y mae'n anodd gwneud diagnosis yn eu cylch, drwy ddarganfod i beth y mae gan y person alergedd fel y gellir cynnig y driniaeth gywir.

ISBN: 978-1-4731-1917-8